

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A479
(Parc Glan-wysg i Fronllys, Powys)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2018**

**The A479 Trunk Road (Glanusk
Park to Bronllys, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2018**

Gwnaed 11 Medi 2018

Made 11 September 2018

Yn dod i rym 17 Medi 2018

Coming into force 17 September 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A479, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A479 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Parc Glan-wysg i Fronllys, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 17 Medi 2018.

1. The title of this Order is the A479 Trunk Road (Glanusk Park to Bronllys, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 17 September 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Medi 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A479 Glanusk Park to Llyswen Trunk Road;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A479 o Barc Glan-wysg i Lyswen.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 17 September 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 ym Mharc Glanwysg hyd at y gyffordd gylchfan â'r A438 ym Mronllys.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

11 Medi 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed on the length of the trunk road that extends from the centre-point of its junction with the A40 at Glanusk Park to the roundabout junction with the A438 at Bronllys.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

11 September 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A479 (PARC
GLAN-WYSG I FRONLLYS, POWYS)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A479, neu gerllaw iddi, rhwng Parc Glan-wysg a Bronllys, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r A479 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r A40 ym Mharc Glan-wysg hyd at y gyffordd gylchfan â'r A438 ym Mronllys.

Y llwybr arall ar gyfer traffig trwodd tua'r de yw mynd tua'r gorllewin ar hyd yr A438 i Bont-y-bat, tua'r de-orllewin ar hyd yr A470 i Aberhonddu a thua'r de-ddwyrain ar hyd yr A40 hyd at gyffordd yr A40/A479 yn Nant-y-ffin: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

Mae angen y gwaharddiad dros dro i gau'r ffordd ar gyfer gwaith prosiect sylweddol ac i wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Yn ogystal â chau'r ffordd yn llwyr, cyflawnir gwaith yn achlysurol drwy gau rhannau o'r darn o'r gefnffordd uchod yn unol â rhaglen dreigl a reolir. Codir arwyddion ynghylch y gwaharddiadau hyn cyn i unrhyw waith ddechrau, a bydd gweithredwyr rheoli traffig yn rheoli trefniadau mynediad ar gyfer preswylwyr a thraffig lleol hyd at y manau cau.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 17 Medi 2018 ac yn weithredol tan 23:59 o'r gloch ar 21 Rhagfyr 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

**THE A479 TRUNK ROAD (GLANUSK PARK
TO BRONLLYS, POWYS) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A479 trunk road between Glanusk Park and Bronllys, Powys.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A479 that extends from the centre-point of its junction with the A40 at Glanusk Park to the roundabout junction with the A438 at Bronllys.

The alternative route for southbound through traffic is via the westbound A438 to Pont-y-bat, south-westbound A470 to Brecon and south-eastbound A40 to the A40/A479 junction at Nant-y-ffin: vice versa for northbound vehicles.

The temporary prohibition is required to close the road for major project works and to undertake general maintenance works. In addition to a full closure, works will also be undertaken occasionally under controlled rolling sectional closures along the above length of the trunk road. Notice of these prohibitions will be signed in advance of any works and traffic management operatives will manage access arrangements for residents and local traffic up to the points of closure.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 17 September 2018 and operate until 23:59 hours on 21 December 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

M D BURNELL
Transport
Welsh Government